
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2439 (Cy.212)

IECHYD MEDDWL, CYMRU

**Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth,
Triniaeth Gymunedol a Chydsynio i Driniaeth) (Cymru) 2008**

<i>Gwnaed</i> - - - -	<i>15 Medi 2008</i>
<i>Gosodwyd gerbron Cynulliad</i>	
<i>Cenedlaethol Cymru</i> - -	<i>17 Medi 2008</i>
<i>Yn dod i rym</i> - -	<i>3 Tachwedd 2008</i>

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 9, 17F(2), 19(1) a (4), 19A, 32(1), (2) a (3), 57(1)(b), 58A(1)(b), 64(2), 64H(2) a 134(3A)(a) ac (8) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(1), ac ar ôl ymgynghori â'r cyrff hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn ymwneud â hyn yn unol ag adran 57(4) a 58A(8), drwy hyn yn gwneud y rheoliadau canlynol—

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth, Triniaeth Gymunedol a Chydsynio i Driniaeth) (Cymru) 2008, maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 3 Tachwedd 2008.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall —

mae i “cyfathrebiad electronig” yr ystyr a roddir i “*electronic communication*” yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000(2);

mae “cyflwyno” (“*served*”), mewn perthynas â dogfen, yn cynnwys ei chyfeirio, ei thraddodi, ei rhoi, ei hanfon ymlaen, ei darparu neu ei hanfon;

ystyr “diwrnod busnes” (“*business day*”) yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul neu ŵyl banc;

(1) 1983, p.20, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007, p.12.
(2) 2000 p.7.

ystyr “dogfen” (“*document*”) yw unrhyw gais, argymhelliad, cofnod, adroddiad, gorchymyn, hysbysiad neu ddogfen arall;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Iechyd Meddwl 1983;

ystyr “gwarcheidwad preifat” (“*private guardian*”), mewn perthynas â chlaf, yw person, ac eithrio awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol, sy'n gweithredu fel gwarcheidwad o dan y Ddeddf;

ystyr “gŵyl banc” (“*bank holiday*”) yw gŵyl banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol(3);

ystyr “ysbyty arbennig” (“*special hospital*”) yw ysbyty lle y darperir gwasanaethau seiciatrig tra diogel;

ystyr “tribiwnlys” (“*tribunal*”) yw Tribiwnlys Iechyd Meddwl Cymru neu'r Tribiwnlys Haen Gyntaf a sefydlwyd o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(4) yn ôl y digwydd.

(2) Ac eithrio i'r graddau y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at —

- (a) adran â Rhif yn gyfeiriad at yr adran o'r Ddeddf sy'n dwyn y Rhif hwnnw;
- (b) rheoliad â Rhif neu Atodlen â Rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Rheoliadau hyn, neu'r Atodlen iddynt, sy'n dwyn y Rhif hwnnw;
- (c) paragraff â Rhif yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheoliad hwnnw sy'n dwyn y Rhif hwnnw;
- (ch) ffurflen alffaniwmerig yn gyfeiriad at y ffurflen yn Atodlen 1 honno sy'n dwyn y dynodiad hwnnw.

Dogfennau

3.—(1) Ac eithrio mewn achos y mae paragraffau (2), (3), (4) neu (5) yn gymwys iddo, caniateir i unrhyw ddogfen y mae'n ofynnol neu yr awdurdodir ei chyflwyno i unrhyw awdurdod, corff neu berson gan neu o dan Ran 2 o'r Ddeddf (derbyniad gorfodol i ysbyty, gwarcheidiaeth a thriniaeth gymunedol o dan oruchwyliaeth) neu'r Rheoliadau hyn gael ei chyflwyno —

- (a) drwy ei thraddodi i'r awdurdod, corff neu berson y mae i'w chyflwyno iddo; neu
- (b) drwy ei thraddodi i unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi i'w chael gan yr awdurdod, y corff neu'r person hwnnw; neu
- (c) drwy ei hanfon yn rhagdaledig drwy'r post a'i chyfeirio at —
 - (i) yr awdurdod neu'r corff yn ei swyddfa gofrestredig neu ei brif swyddfa, neu
 - (ii) y person y mae i'w chyflwyno iddo ym mhreswylfan arferol neu breswylfan hysbys ddiwethaf y person hwnnw; neu
- (ch) drwy ei thraddodi gan ddefnyddio system post mewnol a ddefnyddir gan yr awdurdod, y corff neu'r person.

(2) Rhaid i unrhyw gais am dderbyn claf i ysbyty o dan Ran 2 o'r Ddeddf gael ei gyflwyno drwy draddodi'r cais i un o swyddogion rheolwyr yr ysbyty, y cynigir bod y claf yn cael ei dderbyn iddo, sef swyddog a awdurdodwyd ganddynt i gael y cais hwnnw.

(3) Pan fo claf yn agored i gael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 2 o'r Ddeddf, rhaid cyflwyno—

- (a) unrhyw orchymyn gan berthynas agosaf y claf o dan adran 23 i ollwng y claf, a
- (b) yr hysbysiad o'r gorchymyn hwnnw o dan adran 25(1) —

(3) 1971 p.80.

(4) 2007 p.15.

- (i) drwy draddodi'r gorchymyn neu'r hysbysiad yn yr ysbyty hwnnw i un o swyddogion y rheolwyr sydd wedi'i awdurdodi ganddynt i'w gael, neu
 - (ii) drwy ei anfon yn rhagdaledig drwy'r post at y rheolwyr hynny yn yr ysbyty hwnnw, neu
 - (iii) drwy ei draddodi gan ddefnyddio system post mewnlol a weithredir gan y rheolwyr y mae i'w gyflwyno iddynt, os yw'r rheolwyr hynny'n cytuno.
- (4) Pan fo claf yn glaf cymunedol, rhaid cyflwyno—
- (a) unrhyw orchymyn gan ei berthynas agosaf o dan adran 23(1A) i ollwng y claf, a
 - (b) yr hysbysiad o'r gorchymyn hwnnw a roddir o dan adran 25(1A) —
 - (i) drwy draddodi'r gorchymyn neu'r hysbysiad yn ysbyty cyfrifol y claf i un o swyddogion y rheolwyr sydd wedi'i awdurdodi ganddynt i'w gael, neu
 - (ii) drwy ei anfon yn rhagdaledig drwy'r post at y rheolwyr hynny yn yr ysbyty hwnnw, neu
 - (iii) drwy ei draddodi gan ddefnyddio system post mewnlol a weithredir gan y rheolwyr y mae i'w gyflwyno iddynt, os yw'r rheolwyr hynny'n cytuno.
- (5) Rhaid cyflwyno unrhyw adroddiad a wneir o dan adran 5(2) (cadw claf yn gaeth sydd eisoes wedi bod yn yr ysbyty am 72 awr) drwy—
- (a) ei draddodi i un o swyddogion rheolwyr yr ysbyty sydd wedi'i awdurdodi ganddynt i'w gael, neu
 - (b) ei draddodi gan ddefnyddio system post mewnlol a weithredir gan y rheolwyr y mae i'w gyflwyno iddynt, os yw'r rheolwyr hynny'n cytuno.
- (6) Pan fo dogfen y cyfeirir ati yn y rheoliad hwn yn cael ei hanfon yn rhagdaledig drwy—
- (a) post dosbarth cyntaf, bernir bod y cyflwyno wedi digwydd ar yr ail ddiwrnod busnes ar ôl y dyddiad postio;
 - (b) post ail ddosbarth, bernir bod y cyflwyno wedi digwydd ar y pedwerydd diwrnod busnes ar ôl ei phostio;
- oni ddangosir i'r gwrthwyneb.
- (7) Pan fo dogfen o dan y rheoliad hwn wedi'i thraddodi gan ddefnyddio system post mewnlol, bernir bod y cyflwyno wedi digwydd yr union adeg y cafodd ei thraddodi i'r system post mewnlol.
- (8) Yn ddarostyngedig i adrannau 6(3) ac 8(3) (profi ceisiadau), caniateir i unrhyw ddogfen, sy'n ofynnol neu sydd wedi'i hawdurdodi gan neu o dan Ran 2 o'r Ddeddf neu'r Rheoliadau hyn ac sy'n honni ei bod wedi'i lofnodi gan berson y mae'n ofynnol iddo wneud hynny, neu y mae wedi'i awdurdodi i wneud hynny, gan neu o dan y Rhan honno neu'r Rheoliadau hyn, gael ei derbyn yn dystiolaeth ac i gael ei hystyried yn ddogfen o'r fath heb brawf pellach, oni phrofir y gwrthwyneb.
- (9) Bernir bod unrhyw ddogfen y mae'n ofynnol iddi gael ei chyfeirio at reolwyr ysbyty'n unol â'r Ddeddf neu'r Rheoliadau hyn wedi'i chyfeirio'n briodol at y rheolwyr hynny os yw wedi'i chyfeirio at weinyddydd yr ysbyty hwnnw.
- (10) Pan fo'n ofynnol o dan Ran 2 o'r Ddeddf neu'r Rheoliadau hyn i reolwyr ysbyty wneud unrhyw gofnod neu adroddiad, caniateir i'r swyddogaeth honno gael ei chyflawni gan swyddog a awdurdodwyd gan y rheolwyr hynny yn y cyswllt hwnnw.
- (11) Pan fo'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn i gael cytundeb rheolwyr ysbyty ar gyfer penderfyniad i dderbyn cyflwyniad drwy ddull penodol, caniateir i'r cytundeb hwnnw gael ei roi gan swyddog a awdurdodwyd gan y rheolwyr hynny yn y cyswllt hwnnw.

RHAN 2

Gweithdrefnau a Chofnodion ynghylch Derbyniadau i Ysbyty

Y weithdrefn ar gyfer derbyniadau i ysbyty a dull eu cofnodi

4.—(1) At ddibenion derbyn i ysbyty o dan Ran 2 o'r Ddeddf —

- (a) rhaid i unrhyw gais am dderbyniad i gael asesiad o dan adran 2 fod ar y ffurf a nodir—
 - (i) pan fo wedi'i wneud gan y perthynas agosaf, yn Ffurflen HO 1;
 - (ii) pan fo wedi'i wneud gan weithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy, yn Ffurflen HO 2;
- (b) rhaid i unrhyw argymhellion meddygol at ddibenion adran 2 fod ar y ffurf a nodir—
 - (i) yn achos cydargymhellion, yn Ffurflen HO 3,
 - (ii) mewn unrhyw achos arall, yn Ffurflen HO 4;
- (c) rhaid i unrhyw gais am dderbyniad i gael triniaeth o dan adran 3 fod ar y ffurf a nodir—
 - (i) pan fo wedi'i wneud gan y perthynas agosaf, yn Ffurflen HO 5,
 - (ii) pan fo wedi'i wneud gan weithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy, yn Ffurflen HO 6;
- (ch) rhaid i unrhyw argymhellion meddygol at ddibenion adran 3 fod ar y ffurf a nodir—
 - (i) yn achos cydargymhellion, yn Ffurflen HO 7,
 - (ii) mewn unrhyw achos arall, yn Ffurflen HO 8;
- (d) rhaid i unrhyw gais brys o dan adran 4 fod ar y ffurf a nodir—
 - (i) pan fo wedi'i wneud gan y perthynas agosaf, yn Ffurflen HO 9,
 - (ii) pan fo wedi'i wneud gan weithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy, yn Ffurflen HO 10;
- (dd) rhaid i unrhyw argymhelliad meddygol at ddibenion adran 4 fod ar y ffurf a nodir yn Ffurflen HO 11;
- (e) rhaid i unrhyw adroddiad a wneir o dan is-adran (2) o adran 5 (cadw claf yn gaeth sydd eisoes mewn ysbyty am 72 awr) gan
 - (i) yr ymarferydd meddygol cofrestredig neu'r clinigydd cymeradwy sydd â gofal dros driniaeth y claf, neu
 - (ii) unrhyw berson o'r fath a enwebir gan yr ymarferydd meddygol cofrestredig neu'r clinigydd cymeradwy i weithredu drostynt
 fod ar y ffurf a nodir yn Rhan 1 o Ffurflen HO 12 a rhaid i reolwyr yr ysbyty gofnodi yn Rhan 2 o'r Ffurflen honno bod yr adroddiad hwnnw wedi dod i law;
- (f) rhaid i unrhyw gofnod a wneir o dan is-adran (4) o adran 5 (pŵer i gadw claf mewnol yn gaeth am uchafswm o 6 awr) gan nyrs o'r dosbarth a ragnodir am y tro at ddibenion yr is-adran honno(5) fod ar y ffurf a nodir yn Ffurflen HO 13.

(2) At ddibenion cywiro ceisiadau neu argymhellion o dan adran 15, caiff rheolwyr yr ysbyty y mae claf wedi'i dderbyn iddo'n unol â chais am asesiad neu am driniaeth awdurdodi mewn ysgrifen swyddog ar ran y rheolwyr hynny –

- (a) i gydsynio o dan is-adran (1) o'r adran honno i ddiwygio'r cais neu unrhyw argymhelliad meddygol a roddir at ddibenion y cais;

- (b) i ystyried pa mor ddigonol yw argymhelliad meddygol ac, os bernir bod yr argymhelliad yn annigonol, i roi hysbysiad ysgrifenedig fel sy'n ofynnol gan is-adran (2) o'r adran honno.
- (3) Pan fo claf wedi'i dderbyn i ysbyty yn unol â chais o dan adran 2, 3 neu 4, rhaid i hynny gael ei gofnodi gan reolwyr yr ysbyty hwnnw ar y ffurf a osodir yn Ffurflen HO 14 a chael ei gysylltu wrth y cais neu, yn ôl y digwydd, yr argymhelliad.
- (4) At ddibenion unrhyw argymhelliad meddygol o dan adrannau 2, 3 a 4 (derbyniad i gael asesiad, derbyniad i gael triniaeth a derbyniad i gael asesiad mewn achosion brys yn y drefn honno) yn achos —
 - (a) argymhelliad unigol a wnaed mewn cysylltiad â chlaf y mae meddyg wedi'i archwilio yn Lloegr, rhaid i'r argymhelliad meddygol fod ar y ffurf sy'n ofynnol gan Reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol at berwyl tebyg ar gyfer Lloegr;
 - (b) cydargymhellion a wnaed mewn cysylltiad â chlaf y mae'r ddau feddyg wedi'i archwilio yn Lloegr, rhaid i'r argymhelliad meddygol fod ar y ffurf sy'n ofynnol gan Reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol at berwyl tebyg ar gyfer Lloegr;
 - (c) cydargymhellion a wnaed mewn cysylltiad â chlaf y mae un meddyg wedi'i archwilio yng Nghymru ac un meddyg wedi'i archwilio yn Lloegr, rhaid i'r argymhelliad meddygol fod ar y ffurf sy'n ofynnol gan y Rheoliadau hyn neu ar y ffurf sy'n ofynnol gan Reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol at berwyl tebyg ar gyfer Lloegr.

Adnewyddu awdurdod i gadw'n gaeth

5. At ddibenion adnewyddu awdurdod i gadw claf yn gaeth a dderbyniwyd i ysbyty yn unol â chais am driniaeth—
- (a) rhaid i unrhyw adroddiad a wnaed gan glinigydd cyfrifol at ddibenion adran 20(3) (argymhelliad meddygol i adnewyddu awdurdod i gadw'n gaeth) fod ar y ffurf a osodir yn Rhannau 1 a 3 o Ffurflen HO 15;
 - (b) rhaid i'r datganiad a wnaed gan berson sydd wedi bod yn ymwneud yn broffesiynol â thriniaeth feddygol y claf at ddibenion adran 20(5A) (cytundeb ag argymhelliad meddygol) fod ar y ffurf a nodir yn Rhan 2 o Ffurflen HO 15;
 - (c) rhaid i unrhyw adnewyddiad o awdurdod i gadw'n gaeth o dan adran 20(8) gael ei gofnodi gan reolwyr yr ysbyty lle y mae'r claf yn agored i gael ei gadw'n gaeth ar y ffurf a osodir yn Rhan 4 o Ffurflen HO 15.

Cadw'n gaeth ar ôl absenoldeb heb ganiatâd am fwy nag 28 o ddiwrnodau

6. O ran claf sy'n agored i gael ei gadw'n gaeth ar ôl cael ei gymryd i gystodaeth neu dychwelyd ar ôl absenoldeb heb ganiatâd am fwy nag 28 o ddiwrnodau—
- (a) rhaid i unrhyw adroddiad a wneir o dan adran 21B(2) (awdurdod i gadw'n gaeth yn achos cleifion sy'n cael eu cymryd i gystodaeth neu sy'n dychwelyd ar ôl mwy nag 28 o ddiwrnodau) fod ar y ffurf a osodir yn Rhan 1 o Ffurflen HO 16;
 - (b) rhaid i'r ffaith bod yr adroddiad hwnnw wedi dod i law gael ei chofnodi gan reolwyr yr ysbyty lle y mae'r claf yn agored i gael ei gadw'n gaeth ar y ffurf a osodir yn Rhan 2 o Ffurflen HO 16.

Gollwng cleifion sy'n agored i gael eu cadw'n gaeth gan glinigwyr cyfrifol neu reolwyr ysbyty

7. Rhaid i unrhyw orchymyn a wneir gan y clinigydd cyfrifol neu'r rheolwyr ysbyty o dan adran 23(2)(a) (gollwng cleifion) i ollwng claf sy'n agored i gael ei gadw'n gaeth o dan y Ddeddf fod ar

y ffurf a osodir yn Ffurflen HO 17 ac os caiff y gorchymyn ei wneud gan glinigydd cyfrifol y claf, rhaid ei gyflwyno i reolwyr yr ysbyty lle y mae'r claf yn agored i gael ei gadw'n gaeth.

Darparu gwybodaeth – cleifion sy'n agored i gael eu cadw'n gaeth

8. Oni fydd y claf yn gofyn fel arall, pan fo—
- (a) cadwad claf yn gaeth yn cael ei adnewyddu'n unol ag adroddiad a ddarparwyd o dan adran 20 (hyd yr awdurdod), rhaid i reolwyr yr ysbyty cyfrifol gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol i beri i'r person (os oes un) y mae'n ymddangos iddynt mai ef yw perthynas agosaf y claf gael ei hysbysu o'r adnewyddiad hwnnw cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eu penderfyniad i beidio â gollwng y claf;
 - (b) yn rhinwedd adran 21B(7) (cleifion a gymerir i gystodaeth neu sy'n dychwelyd ar ôl mwy na 28 o ddiwrnodau) cadwad claf yn gaeth yn cael ei adnewyddu'n unol ag adroddiad a ddarperir o dan adran 21B(2), rhaid i reolwyr yr ysbyty cyfrifol y mae'r claf yn agored i gael ei gadw'n gaeth ynddo gymryd y camau sy'n rhesymol ymarferol i beri i'r person (os oes un) y mae'n ymddangos iddynt mai ef yw perthynas agosaf y claf gael ei hysbysu o'r adnewyddiad hwnnw cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eu penderfyniad i beidio â gollwng y claf;
 - (c) yn rhinwedd adran 21B(5) a (6) (cleifion a gymerir i gystodaeth neu sy'n dychwelyd ar ôl mwy na 28 o ddiwrnodau) cadwad claf yn gaeth yn cael ei adnewyddu yn ôl-olygol yn unol ag adroddiad a roddir o dan adran 21B(2), rhaid i reolwyr yr ysbyty y mae'r claf yn agored i gael ei gadw'n gaeth ynddo gymryd y camau sy'n rhesymol ymarferol i beri i'r person (os oes un) y mae'n ymddangos iddynt mai ef yw perthynas agosaf y claf gael ei hysbysu o'r adnewyddiad hwnnw cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddynt gael yr adroddiad hwnnw.

RHAN 3

Y Gweithdrefnau a'r Cofnodion ynghylch Gwarcheidiaeth

Y weithdrefn ar gyfer ceisiadau am warcheidiaeth a dull eu derbyn

- 9.—(1) At ddibenion gwneud cais am warcheidiaeth o dan adran 7—
- (a) rhaid i gais am warcheidiaeth fod ar y ffurf a osodir—
 - (i) pan fo wedi'i wneud gan y perthynas agosaf, yn Rhan 1 o Ffurflen GU 1,
 - (ii) pan fo wedi'i wneud gan weithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy, yn Rhan 1 o Ffurflen GU 2;
 - (b) pan fydd person sy'n cael ei enwi'n warcheidwad yn warcheidwad preifat, rhaid i'r datganiad gan y person hwnnw ei fod yn fodlon gweithredu fod ar y ffurf a osodir yn Rhan 2 o Ffurflen GU 1 neu, yn ôl y digwydd, Rhan 2 o Ffurflen GU 2;
 - (c) rhaid i unrhyw argymhelliad meddygol fod ar y ffurf a osodir —
 - (i) yn achos cydargymhelliad, yn Ffurflen GU 3,
 - (ii) mewn unrhyw achos arall, yn Ffurflen GU 4.
- (2) At ddibenion unrhyw argymhelliad meddygol o dan adran 7 yn achos —
- (a) argymhelliad unigol a wnaed mewn cysylltiad â chlaf y mae meddyg wedi'i archwilio yn Lloegr, rhaid i'r argymhelliad meddygol fod ar y ffurf sy'n ofynnol gan Reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol at berwyl tebyg ar gyfer Lloegr;

- (b) cydargymhellion a wnaed mewn cysylltiad â chlaf y mae'r ddau feddyg wedi'i archwilio yn Lloegr, rhaid i'r argymhelliaid meddygol fod ar y ffurf sy'n ofynnol gan Reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol at berwyl tebyg ar gyfer Lloegr;
 - (c) cydargymhellion a wnaed mewn cysylltiad â chlaf y mae un meddyg wedi'i archwilio yng Nghymru ac un meddyg wedi'i archwilio yn Lloegr, rhaid i'r argymhelliaid meddygol fod ar y ffurf sy'n ofynnol gan y Rheoliadau hyn neu ar y ffurf sy'n ofynnol gan Reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol at berwyl tebyg ar gyfer Lloegr.
- (3) Pan fo cais a wnaed o dan adran 7 yn cael ei dderbyn gan yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol, rhaid iddo gofnodi'r ffaith ei fod wedi'i dderbyn ar y ffurf a osodir yn Ffurflen GU 5, gan gysylltu'r derbyniad hwnnw wrth y cais.

Ymweliadau â chleifion sy'n destun gwarcheidiaeth

10. Rhaid i'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol drefnu i bob claf a dderbynnir i warcheidiaeth o dan y Ddeddf gael ymweliad bob hyn a hyn yn ôl penderfyniad yr awdurdod, ond —

- (a) beth bynnag heb fod y cyfnodau rhwng ymweliadau yn hwy na 3 mis, a
- (b) rhaid bod o leiaf un ymweliad o'r fath yn cael ei wneud gan glinigydd cymeradwy neu ymarferydd a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru at ddibenion adran 12 (darpariaethau cyffredinol ynghylch argymhellion meddygol).

Dyletswyddau gwarcheidwaid preifat

11.—(1) Mae'n ddyletswydd ar warcheidwad preifat i wneud y canlynol—

- (a) penodi ymarferydd meddygol cofrestredig i weithredu fel meddyg enwebedig y claf;
- (b) hysbysu'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol o enw a chyfeiriad y meddyg enwebedig;
- (c) wrth arfer y pwerau a'r dyletswyddau a roddwyd i'r gwarcheidwad preifat neu a osodwyd arno gan y Ddeddf a'r Rheoliadau hyn, gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau y bydd yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol yn eu rhoi;
- (ch) darparu i'r awdurdod hwnnw yr holl adroddiadau neu wybodaeth arall am y claf a fydd yn ofynnol o bryd i'w gilydd gan yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol;
- (d) hysbysu'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol—
 - (i) adeg derbyn y claf i warcheidiaeth, o'i gyfeiriad ei hun a chyfeiriad y claf,
 - (ii) ac eithrio mewn achos y mae paragraff (dd) yn gymwys iddo, o unrhyw newid parhaol yn y naill gyfeiriad neu'r llall, cyn i'r newid ddigwydd, neu heb fod yn hwyrach na 7 niwrnod ar ôl i'r newid ddigwydd;
- (dd) pan fo'r cyfeiriad newydd, adeg unrhyw newid parhaol yn ei gyfeiriad, yn ardal awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol gwahanol, hysbysu'r awdurdod hwnnw a'r awdurdod a fu'n gyfrifol yn flaenorol—
 - (i) o'i gyfeiriad ef a chyfeiriad y claf,
 - (ii) o'r manylion a grybwyllwyd ym mharagraff (b); ac
- (e) os bydd y claf yn marw, neu'r warcheidiaeth yn cael ei therfynu drwy ollwng, trosglwyddo neu fel arall, hysbysu'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol o hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(2) Caniateir rhoi neu ddarparu mewn dull arall (yn ychwanegol at y dulliau o gyflwyno dogfennau y darparwyd ar eu cyfer gan reoliad 3(1)) unrhyw hysbysiad, adroddiadau neu wybodaeth arall o dan y rheoliad hwn y mae'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol perthnasol yn cytuno iddo, gan gynnwys yn llafar neu drwy gyfathrebiad electronig.

Adnewyddu gwarcheidiaeth

12. At ddibenion adnewyddu gwarcheidiaeth—

- (a) rhaid i unrhyw adroddiad a wneir o dan adran 20(6) (adroddiad yn adnewyddu gwarcheidiaeth) fod ar y ffurf a osodir yn Rhan 1 o Ffurflen GU 6;
- (b) rhaid i unrhyw adnewyddiad o awdurdod ar gyfer gwarcheidiaeth o dan adran 20(8) gael ei gofnodi gan yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol ar y ffurf a osodir yn Rhan 2 o Ffurflen GU 6.

Gwarcheidiaeth ar ôl absenoldeb heb ganiatâd am fwy nag 28 o ddiwrnodau

13. O ran dychweliad claf sy'n destun gwarcheidiaeth ac a gymerir i gystodaeth neu sy'n dychwelyd ar ôl absenoldeb heb ganiatâd ar ôl mwy nag 28 o ddiwrnodau—

- (a) rhaid i unrhyw adroddiad a wneir o dan adran 21B(2) (awdurdodiad am warcheidiaeth cleifion a gymerir i gystodaeth neu sy'n dychwelyd ar ôl mwy nag 28 o ddiwrnodau) fod ar y ffurf a osodir yn Rhan 1 o Ffurflen GU 7;
- (b) rhaid i'r ffaith bod yr adroddiad hwnnw wedi dod i law gael ei chofnodi gan yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol ar y ffurf a osodir yn Rhan 2 o Ffurflen GU 7.

Gollwng cleifion sy'n destun gwarcheidiaeth gan glinigwyr cyfrifol neu awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol

14. Rhaid i unrhyw orchymyn a wneir gan y clinigydd cyfrifol neu'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol o dan adran 23(2)(b) i ollwng claf sy'n destun gwarcheidiaeth o dan y Ddeddf fod ar y ffurf a nodir yn Ffurflen GU 8 ac os caiff y gorchymyn ei wneud gan glinigydd cyfrifol y claf rhaid i'r gorchymyn hwnnw gael ei gyflwyno i'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol.

Darparu gwybodaeth – cleifion sy'n destun gwarcheidiaeth

15.—(1) Pan ddaw claf yn destun gwarcheidiaeth o dan y Ddeddf, rhaid i'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol gymryd camau ymarferol i beri bod y claf a'r person (os oes un) y mae'n ymddangos i'r awdurdod mai ef yw perthynas agosaf y claf yn cael eu hysbysu o'r hawliau y cyfeirir atynt yn mharagraff (2).

(2) Dyma'r hawliau—

- (a) hawl y claf i wneud cais i Dribiwnlys o dan adran 66;
- (b) hawl y perthynas agosaf, yn ôl y digwydd, i—
 - (i) gollwng y claf o dan adran 23, neu
 - (ii) gwneud cais i Dribiwnlys o dan adran 69 (pan fo claf yn destun gwarcheidiaeth o dan adran 37 neu pan fo'n cael ei drin fel petai'n destun y warcheidiaeth honno).
- (3) Pan fo gwybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1) —
 - (a) i gael ei rhoi i'r claf, rhaid iddi gael ei rhoi yn llafar ac yn ysgrifenedig fel ei gilydd;
 - (b) i gael ei rhoi i'r perthynas agosaf, rhaid iddi gael ei rhoi yn ysgrifenedig.
- (4) Oni bai bod y claf yn gofyn fel arall, pan fo—
 - (a) gwarcheidiaeth claf yn cael ei hadnewyddu yn unol ag adroddiad a ddarperir o dan adran 20, rhaid i'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol gymryd camau rhesymol ymarferol i beri i'r person (os oes un) y mae'n ymddangos iddo mai ef yw perthynas agosaf y claf gael ei hysbysu o'r adnewyddiad hwnnw cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar

ôl penderfyniad yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol i beidio â gollwng y claf;

(b) yn rhinwedd adran 21B(7), gwarcheidiaeth claf yn cael ei hadnewyddu yn unol ag adroddiad a ddarperir o dan adran 21B(2), rhaid i'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol gymryd camau rhesymol ymarferol i beri i'r person (os oes un) y mae'n ymddangos iddo mai ef yw perthynas agosaf y claf gael ei hysbysu o'r adnewyddiad hwnnw cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl penderfyniad yr awdurdod gwasanaethau lleol cyfrifol i beidio â gollwng y claf;

(c) yn rhinwedd adran 21B(5) a (6), gwarcheidiaeth claf yn cael ei hadnewyddu yn ôl-olygol yn unol ag adroddiad a ddarperir o dan adran 21B(2), rhaid i'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol gymryd camau rhesymol ymarferol i beri i'r person (os oes un) y mae'n ymddangos iddo mai ef yw perthynas agosaf y claf gael ei hysbysu o'r adnewyddiad hwnnw cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol gael yr adroddiad hwnnw.

(5) Pan fo paragraff (4)(b) neu (c) yn gymwys, rhaid i'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, hysbysu'r gwarcheidwad preifat (os oes un) ei fod wedi cael adroddiad a ddarperir o dan adran 21B.

RHAN 4

Y Gweithdrefnau a'r Cofnodion ynghylch Triniaeth Gymunedol

Y gweithdrefnau ar gyfer, a chofnodion ynghylch, gorchmynion triniaeth gymunedol

16.—(1) At ddibenion gwneud gorchmynion triniaeth gymunedol o dan adran 17A ac ychwanegu amodau atynt o dan adran 17B—

- (a) rhaid i unrhyw orchymyn a wneir gan y clinigydd cyfrifol o dan adran 17A(1) fod ar y ffurf a osodir yn Rhannau 1 a 3 o Ffurflen CP 1;
- (b) rhaid i'r amodau a bennir yn y gorchymyn o dan adran 17B(3) ac unrhyw amodau eraill o dan adran 17B(2) fod ar y ffurf gymwys a osodir yn Rhan 1 o Ffurflen CP 1;
- (c) rhaid i unrhyw ddatganiad gan weithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy a wneir o dan adran 17A(4) neu, yn ôl y digwydd, adran 17B(2) fod ar y ffurf gymwys a osodir yn Rhan 2 o Ffurflen CP 1;
- (ch) rhaid i unrhyw orchymyn triniaeth gymunedol gael ei ddarparu i reolwyr yr ysbyty cyfrifol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(2) Rhaid i unrhyw amrywiad o'r amodau a bennir mewn gorchymyn triniaeth gymunedol o dan adran 17B(4) gael ei gofnodi ar y ffurf a osodir yn Ffurflen CP 2 a rhaid darparu'r gorchymyn sy'n amrywio'r amodau yn y modd hwnnw i reolwyr yr ysbyty cyfrifol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Estyn cyfnodau triniaeth gymunedol

17. At ddibenion estyn cyfnodau triniaeth gymunedol o dan adran 20A—

- (a) rhaid i unrhyw adroddiad a wneir gan glinigydd cyfrifol o dan adran 20A(4) fod ar y ffurf a osodir yn Rhannau 1 a 3 o Ffurflen CP 3;
- (b) rhaid i unrhyw ddatganiad gan weithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy a wneir o dan adran 20A(8) fod ar y ffurf a osodir yn Rhan 2 o Ffurflen CP 3;

- (c) rhaid i unrhyw estyniad o gyfnod triniaeth gymunedol o dan adran 20A(3) gael ei gofnodi gan reolwyr yr ysbyty cyfrifol ar y ffurf a osodir yn Rhan 4 o Ffurflen CP 3.

Triniaeth gymunedol ar ôl absenoldeb heb ganiatâd am fwy nag 28 o ddiwrnodau

18. O ran dychweliad claf cymunedol a gymerir i gystodaeth neu sy'n dychwelyd ar ôl absenoldeb heb ganiatâd ar ôl mwy nag 28 o ddiwrnodau—

- (a) rhaid i unrhyw adroddiad a wneir o dan adran 21B(2) fod ar y ffurf a osodir yn Rhan 1 o Ffurflen CP 4;
- (b) rhaid i'r ffaith bod yr adroddiad hwnnw wedi dod i law gael ei chofnodi gan reolwyr yr ysbyty cyfrifol ar y ffurf a osodir yn Rhan 2 o Ffurflen CP 4.

Galw cleifion cymunedol yn eu hól a'u rhyddhau

19.—(1) At ddibenion galw claf yn ei ôl i'r ysbyty o dan adran 17E(1)—

- (a) rhaid i hysbysiad o dan adran 17E(5) gan glinigydd cyfrifol fod ar y ffurf a osodir yn Ffurflen CP 5.
- (b) rhaid i'r clinigydd cyfrifol ddarparu copi o'r hysbysiad i reolwyr yr ysbyty cyfrifol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol;
- (c) pan fo'r claf yn cael ei alw yn ei ôl i ysbyty ac nad hwnnw yw'r ysbyty cyfrifol, rhaid i'r clinigydd cyfrifol—
- (i) darparu copi o'r hysbysiad i reolwyr yr ysbyty hwnnw, a
- (ii) hysbysu'r rheolwyr hynny o enw a chyfeiriad yr ysbyty cyfrifol ; ac
- (ch) rhaid i reolwyr yr ysbyty y mae'r claf yn cael ei alw'n ôl iddo gofnodi amser a dyddiad cadwad y claf yn gaeth yn unol â'r hysbysiad hwnnw ar y ffurf a osodir yn Rhan 1 o Ffurflen CP 6.

(2) O ran rhyddhau claf cymunedol a alwyd yn ei ôl i'r ysbyty o dan adran 17F(5), rhaid i'r clinigydd cyfrifol hysbysu rheolwyr yr ysbyty cyfrifol o unrhyw ryddhau o'r fath a rhaid i'r rheolwyr hynny gofnodi amser a dyddiad rhyddhau'r claf ar y ffurf a osodir yn Rhan 2 o Ffurflen CP 6.

(3) Pan fo ysbyty cyfrifol y claf yn Lloegr rhaid cyflawni galwad y claf yn ei ôl yn unol â Rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol at berwyl tebyg ar gyfer Lloegr.

(4) Rhaid i hysbysiad gan glinigydd cyfrifol sy'n galw claf yn ei ôl i'r ysbyty at ddibenion adran 17E (pŵer i alw claf cymunedol yn ôl i'r ysbyty) yn Ffurflen CP 5 gael ei gyflwyno drwy—

- (a) ei draddodi â llaw i'r claf,
- (b) ei draddodi â llaw i gyfeiriad arferol y claf neu ei gyfeiriad hysbys diwethaf, neu
- (c) ei anfon yn rhagdaledig drwy bost dosbarth cyntaf wedi ei gyfeirio at y claf yng nghyfeiriad arferol y claf neu yng nghyfeiriad hysbys diwethaf y claf.

(5) Ystyrir bod hysbysiad galw yn ôl yn Ffurflen CP 5 wedi ei gyflwyno—

- (a) yn achos paragraff 4(a) unwaith bod yr hysbysiad wedi ei draddodi i'r claf;
- (b) yn achos paragraff 4(b), ar y diwrnod (nad oes rhaid iddo fod yn ddiwrnod busnes) ar ôl iddo gael ei draddodi;
- (c) yn achos paragraff 4(c), ar yr ail ddiwrnod busnes ar ôl iddo gael ei bostio.

Dirymu gorchmynion triniaeth gymunedol

20. At ddibenion dirymu gorchmynion triniaeth gymunedol o dan adran 17F(4) (pwerau mewn cysylltiad â chleifion a alwyd yn eu hól)—

- (a) rhaid i orchymyn, gan glinigydd cyfrifol, sy'n dirymu gorchymyn triniaeth gymunedol fod ar y ffurf a osodir yn Rhannau 1 a 3 o Ffurflen CP 7;
- (b) rhaid i unrhyw ddatganiad gan weithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy a wnaed o dan adran 17F(4)(b) fod ar y ffurf a osodir yn Rhan 2 o Ffurflen CP 7;
- (c) rhaid i'r clinigydd cyfrifol ddarparu'r gorchymyn dirymu i reolwyr yr ysbyty y mae'r claf wedi'i alw yn ei ôl iddo;
- (ch) pan fo'r claf wedi'i alw yn ei ôl i ysbyty ac nad hwnnw yw'r ysbyty cyfrifol, rhaid i'r clinigydd cyfrifol (cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol) ddarparu i reolwyr yr ysbyty a oedd yr ysbyty cyfrifol am y claf cyn dirymu gorchymyn triniaeth gymunedol y claf gopi o'r gorchymyn dirymu hwnnw;
- (d) rhaid i reolwyr yr ysbyty y mae'r claf yn cael ei gadw yn gaeth ynddo wrth ddirymu'r gorchymyn triniaeth gymunedol gofnodi'r ffaith bod copi o'r gorchymyn dirymu wedi dod i law ac amser a dyddiad y dirymiad ar y ffurf a osodir yn Rhan 4 o Ffurflen CP 7.

Gollwng cleifion cymunedol gan glinigwyr cyfrifol neu reolwyr ysbyty

21. Rhaid i unrhyw orchymyn a wneir gan y clinigydd cyfrifol neu'r rheolwyr ysbyty o dan adran 23(2)(c) i ollwng claf cymunedol fod ar y ffurf a osodir yn Ffurflen CP 8 ac os caiff y gorchymyn ei wneud gan glinigydd cyfrifol y claf, rhaid ei gyflwyno i reolwyr yr ysbyty cyfrifol.

Darparu gwybodaeth – cleifion cymunedol

22.—(1) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl galw claf yn ei ôl o dan adran 17E, rhaid i reolwyr yr ysbyty cyfrifol gymryd camau rhesymol ymarferol i—

- (a) peri i'r claf gael ei hysbysu, yn llafar ac yn ysgrifenedig fel ei gilydd, o ddarpariaethau'r Ddeddf y cedwir y claf yn gaeth odani am y tro ac effaith y darpariaethau hynny, a
- (b) sicrhau bod y claf yn deall effaith, i'r graddau y mae'n berthnasol i achos y claf, adrannau 56 i 64 (cydsynio i driniaeth).

(2) Oni bai bod claf yn gofyn fel arall, pan fo—

- (a) cyfnod triniaeth gymunedol y claf yn cael ei estyn yn unol ag adroddiad a ddarperir o dan adran 20A (cyfnod triniaeth gymunedol), rhaid i reolwyr yr ysbyty cyfrifol gymryd camau rhesymol ymarferol i beri i'r person (os oes un) y mae'n ymddangos iddynt mai ef yw perthynas agosaf y claf gael ei hysbysu o'r estyniad hwnnw cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eu penderfyniad i beidio â gollwng y claf;
- (b) yn rhinwedd adran 21B(7A) (cleifion a gymerir i gystodaeth neu sy'n dychwelyd ar ôl mwy nag 28 o ddiwrnodau) cyfnod triniaeth gymunedol claf yn cael ei estyn yn unol ag adroddiad a ddarperir o dan adran 21B(2), rhaid i reolwyr yr ysbyty cyfrifol gymryd camau rhesymol ymarferol i beri i'r person (os oes un) y mae'n ymddangos iddynt mai ef yw perthynas agosaf y claf gael ei hysbysu o'r estyniad hwnnw cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eu penderfyniad i beidio â gollwng y claf;
- (c) yn rhinwedd adran 21B(6A) a (6B) (cleifion a gymerir i gystodaeth neu sy'n dychwelyd ar ôl mwy nag 28 o ddiwrnodau) cyfnod triniaeth gymunedol claf yn cael ei estyn yn ôl-olygol yn unol ag adroddiad a ddarperir o dan adran 21B(2), rhaid i reolwyr yr ysbyty cyfrifol gymryd camau rhesymol ymarferol i beri i'r person (os oes un) y mae'n ymddangos iddynt mai ef yw perthynas agosaf y claf gael ei hysbysu o'r estyniad hwnnw cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddynt gael yr adroddiad hwnnw.

RHAN 5

Trosglwyddo a Chludo

Trosglwyddo o ysbyty i ysbyty neu warcheidiaeth

23.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw glaf y mae adran 19(1) (a) fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 1 i'r Ddeddf yn gymwys iddo (“claf ysbyty”), nad yw'n glaf a drosglwyddir o dan —

- (a) adran 19(3) (trosglwyddo rhwng ysbytai o dan yr un rheolwyr), neu
- (b) adran 123(1) a (2) (trosglwyddiadau rhwng ysbytai arbennig ac ohonynt).

(2) Caniateir i glaf ysbyty gael ei drosglwyddo i ysbyty arall—

- (a) pan fo awdurdod ar gyfer trosglwyddo ar y ffurf a osodir yn Rhan 1 o Ffurflen TC 1 yn cael ei roi gan reolwyr yr ysbyty y mae'r claf yn agored i gael ei gadw'n gaeth ynddo; a
- (b) pan fo'r rheolwyr hynny yn fodlon bod trefniadau wedi'u gwneud i dderbyn y claf i'r ysbyty y bwriedir ei drosglwyddo iddo.

(3) Wedi i'r claf hwnnw gael ei drosglwyddo, rhaid i reolwyr yr ysbyty y mae wedi'i drosglwyddo iddo gofnodi derbyniad y claf ar y ffurf a osodir yn Rhan 2 o Ffurflen TC 1.

(4) Caniateir i glaf ysbyty gael ei drosglwyddo i warcheidiaeth awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol, neu unrhyw berson a gymeradwywyd gan awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol, os yw—

- (a) awdurdod ar gyfer trosglwyddiad ar y ffurf a osodir yn Rhan 1 o Ffurflen TC 2 wedi'i roi gan reolwyr yr ysbyty y mae'r claf yn agored i gael ei gadw'n gaeth ynddo;
- (b) y trosglwyddiad wedi'i gytuno gan yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol, a fydd yr awdurdod sy'n gyfrifol os daw'r trosglwyddiad arfaethedig yn weithredo,;
- (c) yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol hwnnw wedi pennu ar ba ddyddiad y bydd y trosglwyddo'n digwydd; a
- (ch) pan fydd y person a enwir yn yr awdurdod ar gyfer trosglwyddiad fel gwarcheidwad yn berson preifat, cytundeb y person hwnnw wedi'i sicrhau a'i gofnodi ar y ffurf a osodir yn Rhan 2 o Ffurflen TC 2.

(5) Wedi i'r claf hwnnw gael ei drosglwyddo rhaid i'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol gofnodi trosglwyddiad y claf ar y ffurf a osodir yn Rhan 3 o Ffurflen TC 2.

(6) Pan fo claf ysbyty yn cael ei gadw'n gaeth mewn sefydliad cofrestredig—

- (a) caniateir iddo gael ei drosglwyddo o'r sefydliad hwnnw i sefydliad cofrestredig arall pan fo'r ddau sefydliad o dan reolaeth yr un rheolwyr, ac ni fydd paragraff (2) yn gymwys.
- (b) os yw'n cael ei gynnal o dan gontract gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Bwrdd Iechyd Lleol, Awdurdod Iechyd Strategol, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol, Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG, Awdurdod Iechyd Arbennig neu Weinidogion Cymru, caniateir i unrhyw awdurdod ar gyfer trosglwyddiad sy'n ofynnol o dan baragraff (2)(a) neu, yn ôl y digwydd, (4)(a) gael ei roi gan swyddog a awdurdodwyd yn briodol i'r ymddiriedolaeth honno, i'r bwrdd hwnnw, neu i'r awdurdod hwnnw, yn lle gan y rheolwyr, neu, yn ôl y digwydd, Gweinidogion Cymru yn lle'r rheolwyr.

(7) Yn y rheoliad hwn, caniateir i swyddogaethau'r rheolwyr gael eu cyflawni gan swyddog a awdurdodwyd ganddynt yn y cyswllt hwnnw.

(8) Pan fo amodau paragraffau (2) neu (4), yn ôl y digwydd, wedi'u bodloni, rhaid i waith trosglwyddo'r claf gael ei gyflawni o fewn 28 o ddiwrnodau i ddyddiad yr awdurdod fel y darperir

ar ei gyfer o dan is-baragraff (a) o baragraffau (2) neu (4) ac yn niffyg hynny bydd yr awdurdod dros y trosglwyddo yn peidio.

Trosglwyddo o warcheidiaeth i warcheidiaeth neu ysbyty

24.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw glaf sydd am y tro yn destun gwarcheidiaeth o dan y Ddeddf (“claf gwarcheidiaeth”).

(2) Caniateir i glaf gwarcheidiaeth gael ei drosglwyddo i warcheidiaeth awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol arall neu berson arall os yw—

- (a) awdurdod ar gyfer trosglwyddo wedi'i roi gan y gwarcheidwad ar y ffurf a osodir yn Rhan 1 o Ffurflen TC 3;
- (b) y trosglwyddiad wedi'i gytuno gan yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol, a fydd yr awdurdod cyfrifol os daw'r trosglwyddiad arfaethedig yn weithredol;
- (c) yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol hwnnw wedi pennu ar ba ddyddiad y bydd y trosglwyddo'n digwydd; ac
- (ch) pan fydd y person a enwir yn warcheidwad arfaethedig yn yr awdurdod ar gyfer trosglwyddo yn berson preifat, cytundeb y person hwnnw wedi'i sicrhau a'i gofnodi ar y ffurf a osodir yn Rhan 2 o Ffurflen TC 3.

(3) Wedi i'r claf hwnnw gael ei drosglwyddo, rhaid i'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol sy'n gyfrifol gofnodi trosglwyddiad gwarcheidiaeth y claf ar y ffurf a osodir yn Rhan 3 o Ffurflen TC 3.

(4) Caniateir i'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol roi awdurdod i drosglwyddo claf gwarcheidiaeth i ysbyty ar y ffurf a osodir yn Rhan 1 o Ffurflen TC 4 os yw—

- (a) cais am dderbyniad i gael triniaeth wedi'i wneud gan weithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy ar y ffurf a osodir yn Ffurflen HO 6 ac, at ddibenion y cais hwnnw, bydd adrannau 11(4) (ymgyngori â'r perthynas agosaf) a 13 (dyletswydd gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy) yn gymwys fel petai'r trosglwyddiad arfaethedig yn gais am dderbyniad i gael triniaeth;
- (b) cais am dderbyniad i gael triniaeth wedi'i wneud gan y perthynas agosaf ar y ffurf a osodir yn Ffurflen HO 5;
- (c) y cais wedi'i seilio ar argymhellion meddygol a roddwyd gan ddau ymarferydd meddygol cofrestredig yn unol ag adran 12 a rheoliad 4(1)(ch);
- (ch) yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol cyfrifol wedi'i fodloni bod trefniadau wedi'u gwneud i dderbyn y claf i'r ysbyty hwnnw.

(5) Wedi i'r claf hwnnw gael ei drosglwyddo i'r ysbyty, rhaid i gofnod o'i dderbyn gael ei wneud gan reolwyr yr ysbyty y mae'r claf wedi'i drosglwyddo iddo ar y ffurf a osodir yn Rhan 2 o Ffurflen TC 4.

(6) Caniateir i swyddogaethau'r rheolwyr y cyfeiriwyd atynt yn y rheoliad hwn gael eu cyflawni gan swyddog a awdurdodwyd ganddynt yn y cyswllt hwnnw.

(7) Pan fo amodau paragraff (2) wedi'u bodloni, rhaid i waith trosglwyddo'r claf gael ei gyflawni o fewn 28 o ddiwrnodau i ddyddiad yr awdurdod fel y darperir ar ei gyfer o dan is-baragraff (a) o baragraff (2), ac yn niffyg hynny bydd y claf yn aros yng ngwarcheidiaeth y gwarcheidwad cychwynnol.

(8) Pan fo amodau paragraff (4) wedi'u bodloni, rhaid i waith trosglwyddo'r claf gael ei gyflawni o fewn 14 o ddiwrnodau i'r dyddiad y cafodd y claf ei archwilio ddiwethaf, ac yn niffyg hynny bydd y claf yn aros yn destun gwarcheidiaeth.

Aseinio cyfrifoldeb dros gleifion cymunedol

25.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw glaf sydd am y tro yn glaf cymunedol.

(2) Caniateir i gyfrifoldeb dros glaf cymunedol gael ei aseinio i ysbyty arall o dan reolaeth wahanol i'r ysbyty cyfrifol (“ysbyty arall”) pan fo—

- (a) awdurdod ar gyfer ei aseinio ar y ffurf a osodir yn Rhan 1 o Ffurflen TC 5 yn cael ei roi gan reolwyr yr ysbyty cyfrifol sy'n aseinio cyn ei aseinio;
- (b) y rheolwyr hynny wedi'u bodloni bod trefniadau wedi'u gwneud i aseinio'r cyfrifoldeb dros y claf i'r ysbyty arall o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddyddiad yr awdurdod i'w aseinio;
- (c) adeg yr aseinio, rhaid i reolwyr yr ysbyty arall gofnodi'r aseiniad ar y ffurf a osodir yn Rhan 2 o Ffurflen TC 5.

(3) Pan fo amodau paragraff (2) wedi'u bodloni, rhaid i waith aseinio'r cyfrifoldeb gael ei gyflawni o fewn 28 o ddiwrnodau i ddyddiad yr awdurdod fel y darperir ar ei gyfer o dan is-baragraff (a) o'r paragraff hwnnw, ac yn niffyg hynny bydd y cyfrifoldeb dros y gorchymyn triniaeth gymunedol yn parhau i berthyn i'r ysbyty a oedd yn gyfrifol felly cyn yr aseiniad.

(4) Caniateir i'r cyfrifoldeb dros glaf cymunedol y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo gael ei aseinio i ysbyty arall sy'n cael ei reoli gan yr un rheolwyr ysbyty, ac os felly, ni fydd darpariaethau paragraffau (2) a (3) a rheoliad 32(b) yn gymwys.

(5) Pan fo cyfrifoldeb dros glaf yn cael ei aseinio o ysbyty cyfrifol sydd yn sefydliad cofrestredig i ysbyty arall o dan reolaeth wahanol i'r ysbyty sy'n aseinio a phan fo'r claf yn cael ei gynnal o dan gontract gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Bwrdd Iechyd Lleol, Awdurdod Iechyd Strategol, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol, Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG, Awdurdod Iechyd Arbennig neu Weinidogion Cymru caniateir rhoi'r awdurdod dros yr aseinio sy'n ofynnol o dan baragraff (2)(a) gan swyddog a awdurdodwyd yn briodol i'r ymddiriedolaeth honno, i'r bwrdd hwnnw neu i'r awdurdod hwnnw neu gan Weinidogion Cymru yn lle'r rheolwyr.

(6) Caniateir i swyddogaethau'r rheolwyr y cyfeirir atynt yn y rheoliad hwn gael eu cyflawni gan swyddog a awdurdodwyd ganddynt yn y cyswllt hwnnw.

Trosglwyddo cleifion a alwyd yn eu hôl i ysbyty

26.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw glaf sydd am y tro yn cael ei alw yn ei ôl o fod yn destun gorchymyn triniaeth gymunedol o dan adran 17E.

(2) Pan nad yw'r ysbyty y galwyd y claf yn ei ôl iddo o dan yr un rheolaeth â'r ysbyty y trosglwyddir y claf iddo, ni chaniateir i'r trosglwyddiad ddigwydd ond os yw'r gofynion ym mharagraffau (3) hyd (5) yn cael eu bodloni.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (5) caniateir i glaf y cyfeirir ato ym mharagraff (1) gael ei drosglwyddo i ysbyty arall pan fo—

- (a) awdurdod i drosglwyddo ar y ffurf a osodir yn Rhan 1 o Ffurflen TC 6 wedi'i roi gan reolwyr yr ysbyty y mae'r claf yn cael ei gadw'n gaeth ynddo cyn y trosglwyddiad;
- (b) y rheolwyr hynny wedi eu bodloni bod trefniadau wedi cael eu gwneud ar gyfer derbyn y claf i'r ysbyty y bwriedir ei drosglwyddo iddo.

(4) Wedi i'r claf hwnnw gael ei drosglwyddo, rhaid i reolwyr yr ysbyty y mae wedi'i drosglwyddo iddo gofnodi derbyniad y claf ar y ffurf a osodir yn Rhan 2 o Ffurflen TC 6.

